**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mawrth 2009**

**CYNLLUN LWFANS I AELODAU**

**Adroddiad gan Colin Everett**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i aelodau ystyried argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'u cymhwysiad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cefndir

2 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 yn darparu ar gyfer sefydliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i bennu'r ystod a'r lefelau uchaf o lwfansau fydd cynghorau a chynghorau bwrdeistref sirol yn talu i'w aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig penodol.

3 Fe gyhoeddodd y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol ei Adroddiad Cychwynnol ym mis Gorffennaf 2008 ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu Adroddiad Atodol lle'r oedd yr uchafswm o addasiad (uwchraddiad) yn cael ei bennu ar gyfer 2009/10 ac yn dod i rym o'r 1af Ebrill 2009. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Atodol yma ym mis Rhagfyr 2008. Mae unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Cychwynnol wedi eu hamlygu o fewn yr adroddiad hwn o dan yr adrannau perthnasol.

4 Wrth bennu’r uwchraddiad, fe ystyriodd y Panel amrywiaeth o faterion gan gynnwys yr adborth a’r cynrychiolaethau yr oedd wedi derbyn ar faterion yn yr Adroddiad Cychwynnol.

5 Bydd y Panel yn cychwyn ymgynghoriad cynhwysfawr ar Lwfansau Aelodau yn ystod y cyfnod rhwng Chwefror a Mehefin 2009. Hwn fydd y cyfle cyntaf (ers sefydliad rôl y cynghorwr modern a phroffesiynol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) i randdeiliaid gyfrannu at adolygiad cynhwysfawr o Lwfansau Aelodau. Cyflwynir adroddiad llafar ar gyfranogiad yr Awdurdod yn yr ymgynghoriad hwn yn y cyfarfod.

6 Mae Rheoliadau 2007 yn gofyn i awdurdodau ddiwygio eu cynlluniau lwfansau o fewn pedwar mis o Lywodraeth Cynulliad Cymru’n derbyn yr adroddiad cychwynnol.

7 Tra nad yw cylch gwaith y Panel yn ymestyn at benderfyniadau lwfansau i aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn benodol, gwahoddwyd eu barnau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ôl Rheoliadau 2007, rhaid i Awdurdod Parciau Cenedlaethol a Thân ac Achub ystyried y materion a bennwyd gan y Panel o’r mathau a’r uchafswm o lwfansau sy’n daladwy gan eu hawdurdodau cyfansoddol.

8 Mae’r adolygiad cyffredinol hwn o Lwfansau Aelodau yn gyson gyda’r trefniadau wnaed gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae Clercod y tri Awdurdod Tân yng Nghymru wedi cyfarfod a thrafod sut i ymdrin â hyn yn eu hawdurdodau eu hunain, a gyda’i gilydd, maen nhw’n argymell yr adolygiad hwn i’w awdurdodau eu hunain.

9 Mae tabl sydd wedi ei atodi i’r adroddiad fel Atodiad 1 yn dangos y cynyddiadau sydd wedi eu cymhwyso gan awdurdodau cyfansoddol i Lwfansau Sylfaenol a Chyfrifoldeb Arbennig Cynghorwyr ar gyfer 2008/09 er gwybodaeth.

## Penderfyniadau'r Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol

10 Dangosir penderfyniadau'r Panel isod:

### Lwfansau Sylfaenol

11 Fe ddylai'r cynnydd mewn Lwfans Sylfaenol fod yn seiliedig ar y cynyddiadau canran perthnasol mewn tâl llywodraeth leol. Yn unol â hyn, bydd lwfansau sylfaenol ar gyfer 2008/09 yn cael eu cynyddu (ôl-weithredol) yn unol gyda'r cynnig tâl o 2.45% i weithwyr llywodraeth leol yn 2008/09.

### Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig

12 Ystyriodd y Panel nad oedd y cysylltiad rhwng lefel cydnabyddiaeth ariannol arweinyddion y cyngor ac Aelodau Meinciau Ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn berthnasol mwyach. Yn unol gyda hyn, penderfynwyd dylid cynyddu Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig ar gyfer 2008/09 yn unol gyda'r cynnydd mewn Lwfansau Sylfaenol h.y. 2.45%.

### Lwfansau Gofal

13 Er lles cysondeb, mae'r lefel o Lwfans Gofal sy'n daladwy yn 2008/09 wedi cynyddu o 2.45% yn unol gyda'r Lwfans Sylfaenol. Bydd Lwfansau Gofal yn parhau fel lwfans sy'n cyfrannu tuag at gostau gofalu yn hytrach nag ad-daliad o gostau gwirioneddol.

### Lwfansau Teithio

14 Dylid parhau i hawlio lwfansau teithio am ymgymryd â dyletswyddau cymeradwy yn hytrach na fel cyfandaliadau neu ffurf eraill o daliad. Ar gyfer 2008/09, bydd y cyfraddau teithio osodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat ynghyd ag unrhyw atodiad teithwyr arall h.y. 40c y filltir a 5c y filltir ychwanegol am gyd-deithwyr (os yn gymwys).

15 Dylid cyflwyno derbynebau priodol ar gyfer hawliadau eraill ar gyfer teithio, megis costau bws/tacsi sy'n dangos y gost wirioneddol, yn amodol ar unrhyw ofyniad neu gyfyngiad fydd awdurdodau yn eu

pennu. Fe ddylai aelodau fod yn ofalus wrth ddewis y dull mwyaf cost effeithiol o deithio.

**Lwfansau Cynhaliaeth**

16 Gosodwyd cyfradd cynhaliaeth o £28 y diwrnod yn yr Adroddiad Atodol (oedd wedi ei osod ar £26 yn flaenorol o fewn yr adroddiad Cychwynnol). Mae hyn yn cynnwys brecwast os nad yw'n rhan o'r llety dros nos. Byddai hyn yn ad-daliad o gostau gwirioneddol ar gyfer dyletswyddau wedi eu cymeradwyo gyda'r ddarpariaeth o dderbynebau.

17 Mae lwfansau ar gyfer aros dros nos wedi eu pennu ar uchafswm o £105 ar gyfer Llundain a £90 mewn mannau eraill, o fewn Adroddiad Cychwynnol. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Atodol wedi codi hyn i £124 a £95.

18 Mae uchafswm o £25 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau pan ar ddyletswyddau wedi eu cymeradwyo.

**Lwfansau Aelodau Cyfetholedig**

19 Mae lwfans o uchafswm o £1,450 y flwyddyn wedi ei osod i aelodau cyfetholedig sy'n cadeirio pwyllgorau. £760 yw'r lwfans sydd wedi ei osod ar gyfer aelodau cyfetholedig eraill.

**Argymhellion eraill gan y Panel**

20 Er mwyn adlewyrchu rôl y cynghorydd proffesiynol modern, mae'r Panel yn awgrymu newid y term "lwfans" i "cydnabyddiaeth" a'i fod yn cael ei fabwysiadu mewn unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol.

21 Fe ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych am fesurau gwneud pwerau ar lwfansau cynghorwyr er mwyn caniatáu'r posibilrwydd o ddiwygio strwythur presennol lwfansau yn arwyddocaol, fyddai'n galluogi'r Panel i bennu lefel o lwfansau yn hytrach na gosod uchafsymiau.

22 Ynglŷn â'r gofyniad am gyhoeddusrwydd parthed lwfansau, mae'r Panel yn argymell fod manylion o gyfanswm swm pob lwfans delir yn y flwyddyn honno i bob aelod o'r cyngor yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod ac mewn papur newydd addas ar yr un amser â Datganiad o Gyfrifon yr awdurdod h.y. ar ddiwedd Gorffennaf.

23 Nid yw pob cyngor yn galluogi eu cynghorwyr i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Panel yn argymell y dylai fod gan yr holl gynghorwyr yr hawl i ymuno gyda Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## CEISIADAU I AWDURDODAU TÂN AC ACHUB

24 Fel nodwyd eisoes, nid yw cylch gwaith y Panel yn ymestyn i bennu lwfansau i aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn benodol ond estynnwyd gwahoddiad am eu barnau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ystyried y mater a bennwyd gan y Panel ar gyfer y mathau a lefelau uchafswm lwfansau sy'n daladwy gan eu hawdurdodau cyfansoddol yn ôl Rheoliadau 2007.

### Lwfansau Sylfaenol

25 Mae pump o'r awdurdodau cyfansoddol wedi cymeradwyo cynnydd uchafswm mewn lwfans sylfaenol o 2.45% gydag un awdurdod yn penderfynu peidio cynyddu eu lwfansau ar gyfer 2008/09.

26 Cynnydd cyfartalog y chwe awdurdod cyfansoddol yw'r uchafswm allai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei gymhwyso. Yn unol â hyn, y cynnydd macsimwm allai gael ei gymhwyso gan yr Awdurdod hwn ar gyfer 2008/09 yw 2.04% h.y. o £1,103.64 i £1,126.15. Mae hyn wedi cael ei weithredu.

### Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig (Lwfansau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd)

27 Fel uchod, mae pump o'r awdurdodau cyfansoddol wedi cymeradwyo'r cynnydd uchafswm mewn lwfansau cyfrifoldeb arbennig o 2.45% gydag un awdurdod yn penderfynu peidio cynyddu

lwfansau ar gyfer 2008/09. Yn unol â hyn, y cynnydd mwyaf sy'n gallu cael ei gymhwyso gan yr Awdurdod hwn ar gyfer 2008/09 yw 2.04% h.y. cynnydd yn Lwfans y Cadeirydd o £9,451.30 i £9,644.11 a chynydd yn lwfans yr Is-gadeirydd o £7,263.90 i £7,412.08. Gweithredwyd hyn.

**Lwfansau Gofal**

28 Nid yw'r holl awdurdodau cyfansoddol yn darparu Lwfansau Gofal ar hyn o bryd. Byddai hwn yn lwfans newydd i'r Gwasanaeth Tân ac Achub pe byddai'n cael ei ystyried a'i gymeradwyo.

29 I'r awdurdodau hynny sy'n gwneud y fath ddarpariaethau, mae cynyddiadau wedi bod un ai yn unol gyda'r cynnydd mewn lwfansau cyfrifoldeb sylfaenol ac arbennig neu yn cael eu hadolygu'n fuan.

30 Mae'r Adroddiad Atodol yn argymell fod lefel y Lwfans Gofal sy'n daladwy yn 2009/10 yn cynyddu o 5% yn unol gyda'r Mynegai Prisiau Manwerthu i uchafswm o £403 y mis.

**Lwfansau Cynhaliaeth**

31 Dyma lwfansau cynhaliaeth presennol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, lle nad oes angen aros dros nos:

| | |
|---|---|
| **Lwfans Brecwast**<br>Yn daladwy am absenoldebau o adref am o leiaf 4 awr, cyn 11.00 y bore | £6.40 |
| **Lwfans Cinio**<br>Yn daladwy am absenoldeb o adref am o leiaf 4 awr, gan gynnwys y cyfnod rhwng hanner dydd hyd 2.00 y prynhawn | £8.50 |
| **Swper**<br>Yn daladwy am absenoldebau o adref am o leiaf 4 awr, gan orffen ar ôl 7 yr hwyr | £19.20 |

32 Cyfanswm swm y lwfans presennol yw £34.10. Mae'r Panel wedi gosod cyfradd cynhaliaeth 'dyddiol' o uchafswm o £26.00 y diwrnod (ar gyfer 2008/09), sydd wedi cael ei gynyddu i £28.00 (ar gyfer 2009/10) yn yr Adroddiad Atodol.

33 Mae'r Awdurdod yn gallu ystyried dau opsiwn:

i) parhau gyda'r cyfraddau presennol parthed lwfansau unigol a gosod cap cronnol o £28.00 ar unrhyw ddiwrnod; neu
ii) lleihau'r lwfansau presennol er mwyn eu bod yn adio'n gronnol i'r uchafswm o £28.00 h.y. brecwast £4.00, cinio £5.00 a swper £19.00.

34 Mae amrywiaeth o ddulliau wedi cael eu cymhwyso gan Awdurdodau Cyfansoddol. Ystyrir fod opsiwn i) yn cynnig datrysiad pragmatig.

**Lwfansau Dros Nos**

35 Dyma'r Lwfans Dros Nos presennol (gan gynnwys brecwast):

- Llundain £125.00
- Pob achos arall £ 96.00

36 Fe bennodd y Panel y cyfraddau newydd ar gyfer 2008/09 fel a ganlyn:

- Llundain £105.00
- Pob achos arall £ 90.00

37 Mae'r Adroddiad Atodol (ar gyfer 2009/10) yn pennu'r cyfraddau newydd fel:

- Llundain £124.00
- Pob achos arall £ 95.00

**Lwfansau Teithio**

38 Ar gyfer 2008/09, mae'r Panel wedi pennu y dylai uchafswm y cyfraddau teithio sy'n daladwy fod y rhai osodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal ac unrhyw atodiad cyd-deithiwr. Mae'r cyfraddau yma'n cael gwared â'r cysylltiadau hanesyddol i gyfraddau teithio Aelodau'r Cynulliad. Dyma gyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar hyn o bryd:

39 Cerbydau motor preifat pob maint:

| | |
|---|---|
| Hyd at 10,000 o filltiroedd | 40c y filltir |
| Dros 10,000 o filltiroedd | 25c y filltir |
| Beic Modur Preifat | 24c y filltir |
| Beic Pedal | 20c y filltir |
| Atodiad cyd-deithwyr | 5c y filltir am bob cyd-deithiwr |

40 Gan fod y cyfraddau yma'n ailadrodd y cyfraddau presennol, ni fydd newid yng nghyfradd y lwfans teithio.

**Lwfans i Aelodau Cyfetholedig**

41 Mae hwn yn lwfans newydd, fyddai'n gymwys i'r Aelodau Annibynnol sy'n eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod. Ni fyddai'r swydd hon yn swydd 'llawn' yn nhermau ei ehangder, gwybodaeth, ymglymiad ac amlder cyfarfodydd.

42 Mae tri opsiwn ar gael er ystyriaeth:

43 Opsiwn 1 – talu dim lwfans

44 Opsiwn 2 - Darparu lwfans cyfartalog. Mae'r aelodau yma'n derbyn lwfansau teithio a chynhaliaeth yn unig ar hyn o bryd. Mae'r Panel wedi gosod macsima o £1,450 y flwyddyn i Gadeiryddion a £760 i aelodau annibynnol eraill. Mae'r ffigyrau yma'n seiliedig ar y dybiaeth o bedwar cyfarfod y flwyddyn wedi ei luosi gan y ffi ddyddiol bresennol i Gadeiryddion ac Aelodau o Gyrff Noddedig Llywodraeth y Cynulliad Band 2, 2 gyfarfod ychwanegol ar "ddyletswyddau Cadeiryddion".

45 Yn nhermau cymhwyso, gan ystyried fod y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn (cyfarfodydd hanner diwrnod), gan eithrio digwyddiadau hyfforddi, gallai'r lefel o lwfansau gael eu gosod ar chwarter yr uchafswm h.y. £362.50 y flwyddyn i'r Cadeiryddion a £190 i aelodau annibynnol.

46 Opsiwn 3 – gallai lwfans fod yn daladwy yn seiliedig ar gyfran o gyfanswm aelodaeth yr Awdurdod Tân, er enghraifft 25% o'r lwfans uchafswm lwfans i Aelod o'r Awdurdod Tân.

47 Mae Clercod y tri Awdurdod Tân yng Nghymru wedi trafod yr opsiynau yma ac yn argymell mabwysiadu ymagwedd gyson ar draws Cymru ac mai Opsiwn 2 fyddai orau.

**Argymelliadau**

48 Fod yr Awdurdod yn:

i. ystyried pa un ai i gyflwyno Lwfans Gofal yn unol gydag argymhelliad heb fod yn un gorfodol y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol;
ii. cymeradwyo'r lefel o lwfansau cynhaliaeth fel amlinellir ym mharagraffau 33-34;
iii. cymeradwyo lwfansau dros nos fel yr amlinellir ym mharagraffau 36-37;
iv. nodi fod y cyfraddau teithio am aros yr un fath;
v. rhoi ystyriaeth i ba un ai os yw lwfans aelodau cyfetholedig yn daladwy. Gofynnir i'r Awdurdod ystyried argymell Opsiwn 2 (paragraff 44) uchod fyddai'n effeithiol o 1af Ionawr 2009 ac yn gyson gydag awdurdodau cymharol;
vi. ystyried newid enw'r Cynllun o Gynllun Lwfans Aelodau i Gynllun Cydnabyddiaeth Aelodau fel yr awgrymwyd gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

49 Mae'r cynllun presennol wedi ei gynnwys o fewn y Llawlyfr i Aelodau.

ATODIAD 1

**CYNYDDIADAU A GYMHWYSIR GAN AWDURDODAU CYFANSODDOL I LWFANSAU SYLFAENOL A CHYFRIFOLDEBAU ARBENNIG CYNGHORWYR AR GYFER 2008/09**

| CYNGOR | CYNNYDD ADDASIAD BLYNYDDOL LWFANS SYLFAENOL WEDI EI GYMHWYSO | CYNNYDD ADDASIAD BLYNYDDOL LWFANS CYFRIFOLDEBAU ARBENNIG WEDI EI GYMHWYSO |
|---|---|---|
| **CONWY** | 2.45 | 2.45 |
| **SIR DDINBYCH** | 2.45 | 2.45 |
| **SIR Y FFLINT** | 2.45 | 2.45 |
| **GWYNEDD** | 0 | 0 |
| **WRECSAM** | 2.45 | 2.45 |
| **YNYS MÔN** | 2.45 | 2.45 |
| **CYFANSWM** | | |
| **CYFARTALEDD (yr uchafswm allai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gymhwyso ar gyfer 2008/09)** | **2.04** | **2.04** |

(*Uchafswm cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Sylfaenol a Chyfrifoldebau Arbennig yw 2.45%)

**LWFANSAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

| | 2007/08 | UCHAFSWM Y CYNNYDD | CYFANSWM Y CYNNYDD BLYNYDDOL | CYFANSWM LWFANSAU SY'N DALADWY YN 2008/09 |
|---|---|---|---|---|
| **LWFANS SYLFAENOL** | £1103.64 | **2.04** | 22.51 | £1126.15 |
| **LWFANS CYFRIFOLDEB ARBENNIG - CADEIRYDD** | £9451.30 | **2.04** | 192.81 | £9644.11 |
| **LWFANS CYFIFOLDEBAU ARBENNIG – IS-GADEIRYDD** | £7263.90 | **2.04** | 148.18 | £7412.08 |